| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
| --- | --- | --- |
| | | |

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

General Certificate of Secondary Education

140/52

**DYLUNIO A THECHNOLEG**

**PAPUR 2**

**MAES PENODOL: CYNHYRCHION GRAFFIG**

(Haen Sylfaenol – Graddau G i C)

P.M. DYDD MAWRTH, 5 Mehefin 2007

(1½ awr)

| | **Gadewch yn wag** |
| --- | --- |
| **Cwestiwn 1** | |
| **Cwestiwn 2** | |
| **Cwestiwn 3** | |
| **Cwestiwn 4** | |
| **Cwestiwn 5** | |
| **CYFANSWM Y MARCIAU** | |

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Bydd angen offer lluniadu sylfaenol a phensiliau lliw arnoch ar gyfer yr arholiad hwn.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes gennych ddigon o le, cewch barhau â'ch ateb yng nghefn y llyfryn, gan ofalu nodi rhif y cwestiwn yn gywir.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

*Atebwch* **bob** *cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.*

**1.** *(a)* Mae'r ffotograffau isod yn dangos darnau o gyfarpar graffeg.
**Astudiwch bob** ffotograff ac yna **cwblhewch** y frawddeg trwy roi *enw llawn* **pob** darn o gyfarpar.

(i)



Enw llawn y darn hwn o gyfarpar yw .................................................................................. [1]

(ii)



Enw llawn y darn hwn o gyfarpar yw .................................................................................. [2]

(iii)



Enw llawn y darn hwn o gyfarpar yw .................................................................................. [1]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* **Astudiwch** y ffotograffau isod o gamera tafladwy *(disposable)* a'i becyn.
Mae cas cerdyn yn gorchuddio'r camera plastig.



Y camera heb ei becyn.




Y camera yn ei gas cerdyn fel y bydd yn cael ei ddefnyddio.

(i) **Rhowch un** rheswm pam y mae'r cwmni wedi penderfynu gorchuddio'r camera plastig â chas cerdyn. [2]

..........

..........

(ii) Mae'r cas cerdyn ar gyfer y camera wedi'i wneud o gerdyn bocsbord gwyn 350 micron.
**Rhowch ddau** reswm pam mai hwn yw'r defnydd mwyaf priodol. 2 × [2]

Rheswm 1: ..........

..........

Rheswm 2: ..........

..........

(iii) Mae cas cerdyn y camera wedi'i wneud o rwyd wedi'i phlygu. Mae'r rhwyd yn cael ei thorri allan â dei. Gan ddefnyddio nodiadau a diagramau, **disgrifiwch** y broses o dorri â dei. [4]

..........

..........

..........

..........

..........

..........

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* Defnyddir y broses argraffu offset lithograffig i argraffu cas cerdyn y camera.
Mae'r diagram wedi'i labelu isod yn dangos prif rannau gwasg argraffu offset lithograffig.

**Cwblhewch** y diagram trwy roi'r term cywir yn y **ddau** label sydd heb eu gorffen. [4]




*(ch)* Mae argraffu lithograffig yn defnyddio inc sail olew *(oil based)* a dŵr i argraffu.
**Esboniwch** sut mae'r **ddau** hylif yn gweithio yn y broses argraffu. [3]

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

# TUDALEN WAG

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**2.** Mae'r diagram ar y dde yn dangos pecyn ar gyfer cynnyrch.



*(a)* **Nodwch** enw llawn siâp y pecyn hwn.

.................................................................................................... [2]

*(b)* Dyma luniad orthograffig wedi'i rannol gwblhau o'r pecyn.
**Cwblhewch** y blaenolwg a'r ochrolwg **yn fanwl gywir**, gan ddangos yr holl linellau tafluniad. [9]




*(c)* **Rhowch un** rheswm pam y mae dylunwyr yn defnyddio lluniadau orthograffig. [2]

Rheswm: ....................................................................................................

....................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(ch)* Mae lluniad orthograffig o flwch cerdyn gwahanol yn cael ei ddangos isod.



(i) **Tanlinellwch** yr ongl gywir ar gyfer y tafluniad. [1]

ONGL GYNTAF  TRYDEDD ONGL

(ii) **Nodwch** enw llawn siâp y blwch. .................................................................................. [2]

(iii) Dangosir isod rwyd wedi'i llunio'n rhannol ar gyfer y blwch. **Cwblhewch** y rhwyd.
*Peidiwch â chynnwys unrhyw dabiau gludio ar eich lluniad.* [6]





**Trosodd.**

**3.** *(a)* O'r rhestr isod, dewiswch y **pedwar** lliw proses a ddefnyddir mewn argraffu lliw llawn. [4]

**Coch** **Glas** **Gwyrddlas *(Cyan)*** **Gwyrdd** **Magenta** **Du** **Melyn**

Lliw 1: ..........................................................................................

Lliw 2: ..........................................................................................

Lliw 3: ..........................................................................................

Lliw 4: ..........................................................................................

*(b)* Yn y lleoedd gwag canlynol, **ysgrifennwch** enwau'r lliwiau proses a ddangosir isod. [4]



Enw'r lliw: ...................................................................



Enw'r lliw: ...................................................................

*(c)* Mae lliwiau'n cael eu disgrifio'n aml fel lliw canrannol, er enghraifft 25% coch.
**Edrychwch** ar y stribed lliw isod a **labelwch** y pwyntiau a ddangosir â'u lliw canrannol. [3]



........................ % COCH ........................ % COCH ........................ % COCH

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(ch)* Mae lliwiau'n cael eu cysylltu â geiriau.
O'r rhestr isod, **dewiswch** y lliw sy'n cynrychioli orau y geiriau yn y tabl. [3]

**COCH GWYN BROWN PORFFOR**

| Geiriau | Enw'r lliw |
|---|---|
| Moethusrwydd. | .................................................................................. |
| Grym, perygl. | .................................................................................. |
| Daear, natur. | .................................................................................. |

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**4.** *(a)* Mae rhai categorïau o ffont wedi'u rhestru isod.
**Cwblhewch** y tabl trwy ychwanegu'r categori y mae **pob** ffont yn perthyn iddo. [4]

**ADDURNOL** **MODERN** **HEN ARDDULL** **SANS SERIF** **SGRIPT**

| Enghraifft o ffont | Categori |
|---|---|
| Mae menig yn cadw eich dwylo'n gynnes. | .................................... |
| Mae menig yn cadw eich dwylo'n gynnes. | .................................... |
| Mae menig yn cadw eich dwylo'n gynnes. | .................................... |
| Mae menig yn cadw eich dwylo'n gynnes. | .................................... |

*(b)* Mae ffontiau'n cael eu mesur mewn pwyntiau. **Nodwch** yn fras sawl pwynt sydd mewn un milimetr. [1]

....................................................................................



*(c)* Mae pob ffont yn addas ar gyfer defnydd penodol. Mae'r ddelwedd gyferbyn yn dod o lyfr comics i blant sy'n rhoi gwybodaeth am anifeiliaid.

O'r rhestr isod, **dewiswch** y ffont mwyaf priodol ar gyfer y swigen siarad *(speech bubble)* a **rhowch ddau** reswm pam yr ydych wedi ei ddewis.

BANK GOTHIC **POSTER BODONI** COMIC SANS JOKERMAN

Ffont a ddewiswyd: .................................................................................... [2]

Rheswm 1: ....................................................................................

.................................................................................................................... [2]

Rheswm 2: ....................................................................................

.................................................................................................................... [2]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(ch)* Mae'r label isod wedi dod o becyn o bapur.




(i) **Nodwch** ystyr *25 dalen*. [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

(ii) **Nodwch** ystyr *160 gms (gsm)*. [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

(iii) **Nodwch** ystyr *A3+*. [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

(iv) **Nodwch** sawl dalen o bapur A4 y gellir ei gwneud o un ddalen A3+. [1]

..............................................................

**5.** Mae canolfan arddio'n gwerthu bylbiau blodau yn y gwanwyn. Mae'r ffotograff gyferbyn yn dangos bwlb a'i feintiau o ben i ben.
Mae angen pecyn ar gyfer y bylbiau.

Enw'r ganolfan arddio yw 'TYFU'.




*(a)* Mae angen logo ar gyfer y pecyn.

Yn y petryal isod, **dyluniwch** logo gan ddefnyddio'r enw 'TYFU' neu ddelwedd *(image)* i gynrychioli'r enw. Rhaid i'r logo lenwi'r petryal.

**Rhoddir marciau am:**

- dylunio logo sy'n defnyddio'r enw neu ddelwedd i gynrychioli'r enw; [3]
- defnyddio'r holl le sydd ar gael; [1]
- ansawdd y lluniadu; [2]
- ansawdd y defnydd o liw. [2]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* Mae angen i'r pecyn ddal dau fwlb.

(i) **Dyluniwch** becyn: sy'n dal dau fwlb;
sy'n cael ei wneud o gerdyn wedi'i blygu sydd wedi'i amddiffyn rhag lleithder *(moisture)*;
sydd â logo'r ganolfan arddio wedi'i argraffu arno;
sydd wedi'i addurno i wneud iddo edrych yn ddeniadol;
sydd â lle arno ar gyfer cyfarwyddiadau plannu.

**Rhoddir marciau am ddyluniad sy'n:**

- dal dau fwlb; [1]
- dangos y lle ar gyfer y logo; [1]
- dangos yr addurn a gaiff ei argraffu ar y pecyn; [2]
- dangos y lle ar gyfer y cyfarwyddiadau plannu; [1]
- dangos sut y gellir gwneud y pecyn sydd o gerdyn wedi'i blygu. [3]

(ii) **Nodwch** fanyleb y cerdyn a gaiff ei ddefnyddio i wneud y pecyn. [1]

..........................................................................................................................................

(iii) **Nodwch** sut y gellir amddiffyn y cerdyn rhag lleithder. [1]

..........................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* **Gwnewch** luniad manwl gywir o rwyd eich dyluniad ar gyfer y pecyn.
Dylech ddangos llinellau plygu a llinellau torri.
Rhaid i chi ychwanegu'r **tri** (3) dimensiwn pwysicaf at eich lluniad. [7]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Parhad yn unig.**